Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cyfres Cynllunio: 8 - Offer telathrebu

**Hysbysiad Hwylus** Mai 2011

## Beth yw offer telathrebu?

Mae offer telathrebu'n cynnwys offer radio a thechnoleg ddigidol fel mastiau ffonau symudol, antenau radio ac offer cysylltiedig.

## Sut y caiff y math hwn o ddatblygiad ei reoli?

Caiff canllawiau ar bolisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ynghylch offer telathrebu eu nodi yn **Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu** (TAN 19).

Yn ôl ***Polisi Cynllunio Cymru,*** dylai cynlluniau datblygu nodi'r polisïau a'r cynigion ar gyfer lleoliad datblygiadau telathrebu, dyrannu safleoedd ar gyfer datblygiadau mawr a chynnwys polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf i arwain datblygiadau telathrebu lle y gallai safleoedd ac eithrio'r rhai a nodir yn y cynllun gael eu cynnig.

Ni chaiff rhai gweithredoedd bach eu hystyried yn ddatblygiadau o gwbl, felly nid oes angen unrhyw fath o gymeradwyaeth arnynt[1]. Mae hyn yn cynnwys gosod lloerennau ac erialau teledu bach ar eiddo domestig.
Caiff datblygiadau telathrebu eraill eu rhannu'n un o dri chategori:

- Datblygiadau a ganiateir
- Datblygiadau a ganiateir gyda chymeradwyaeth o flaen llaw; a
- Datblygiadau y mae angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar eu cyfer.

## Pa fath o offer sy'n ddatblygiad a ganiateir?

Diffinnir rhai mathau o ddatblygiadau mewn cyfraith cynllunio fel datblygiadau 'a ganiateir', felly caiff caniatâd datblygu ei roi iddynt heb fod angen cais cynllunio.

Caiff datblygiadau telathrebu a ddiffinnir fel rhai 'a ganiateir' eu nodi mewn deddfwriaeth[2]. Mae'r math o offer 'a ganiateir' yn cynnwys datblygiadau ar raddfa fach, er enghraifft gosod antenau ychwanegol ar fastiau radio sydd eisoes yn bodoli, neu ar orsafoedd a chabinetau offer sy'n llai na 2.5 metr ciwbig.

[1] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: **Hysbysiad hwylus: Datblygiadau nad oes angen caniatâd cynllunio arnynt**
[2] Atodlen 2, Rhan 24 o *Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Cymru) 1995* fel y'i diwygiwyd gan *Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002.*

Fodd bynnag, ni ystyrir y rhain yn ddatblygiadau 'a ganiateir' mewn Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd Cadwraeth, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol na Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yn yr ardaloedd hyn, byddai angen cymeradwyaeth o flaen llaw (gweler isod) ar ddatblygiadau bach hyd yn oed.

Mae'n bosibl bod ardaloedd eraill lle y gallai arfer yr hawl datblygu a ganiateir gael effaith ddifrifol. Gall Awdurdod Cynllunio Lleol roi "Cyfarwyddyd Erthygl 14" i dynnu hawliau datblygiadau a ganiateir yn ôl mewn ardaloedd penodol, os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo cyfarwyddyd o'r fath.

## Beth yw cymeradwyaeth o flaen llaw?

Mae rhai datblygiadau telathrebu mwy yn 'ddatblygiadau a ganiateir', ond mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredydd wneud cais i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i weld a oes angen 'cymeradwyaeth o flaen llaw' arnynt cyn dechrau ar y datblygiad. Yna, mae gan yr Awdurdod 56 diwrnod i hysbysu'r gweithredydd o'i benderfyniad neu, fel arall, gall y datblygiad fynd yn ei flaen. Mae hyn yn wahanol i gais cynllunio llawn, oherwydd nid yw'n cynnwys yr un gweithdrefnau ymgynghori ffurfiol a gall y datblygiad ddechrau'n syth ar ddiwedd y 56 diwrnod, oni bai fod yr awdurdod yn penderfynu'n wahanol. Ni ellir ymestyn ar y cyfnod o 56 diwrnod. Pan fydd awdurdod yn ystyried y gellir cyfiawnhau gwrthod rhoi cymeradwyaeth, dylai drafod yn gyntaf gyda'r gweithredydd y posibilrwydd o newid lleoliad a/neu ymddangosiad y datblygiad arfaethedig.

Yn fras, y math o ddatblygiadau yn y rhestr a ganlyn sy'n amodol ar gael cymeradwyaeth o flaen llaw:

- Mast ar y ddaear heb fod yn uwch na 15 metr;
- Mast, heb fod yn uwch na 15 metr, sy'n cael ei osod ar adeilad neu strwythur;
- Antena ar adeilad sydd eisoes yn bodoli ac sy'n uwch na'r adeilad ei hun o fwy na phedair metr;
- Bwth ffôn cyhoeddus;
- Amgaead offer radio sydd yn fwy na 2.5 metr ciwbig;
- Datblygiadau sy'n ategu amgaead offer radio (ee: codi ffensys, adeiladu ffyrdd mynediad); a
- Rhai datblygiadau llai ar dir mewn Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd Cadwraeth ac ati. (gweler Adran 3 uchod).

## Pryd mae angen caniatâd cynllunio?

Mae angen caniatâd cynllunio ar bob math arall o ddatblygiadau telathrebu sydd y tu allan i feini prawf datblygiadau a ganiateir, fel y'i hamlinellir yn y ddeddf, cyn y gellir bwrw ymlaen â hwy. Er enghraifft, byddai angen caniatâd cynllunio ar fast ar y ddaear sy'n uwch na phymtheg metr. Os oes angen caniatâd cynllunio ar ddatblygiad, yna bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried hyn yn yr un ffordd ag unrhyw gais arall[3]. Os bydd y datblygiad yn effeithio ar Adeilad Rhestredig, yna bydd angen gwneud cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig.

[3] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: **Hysbysiad hwylus: Caniatâd cynllunio**

## Sut yr asesir y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â datblygiadau o'r fath?

Os yw datblygiad yn ymwneud â chodi un neu fwy o fastiau, mae'r ddeddfwriaeth yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredydd gyflwyno datganiad sy'n dangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau'r ICNIRP[4] ynghylch amlygiad y cyhoedd i ymbelydredd, **naill ai** fel rhan o'r broses gymeradwyaeth o flaen llaw **neu'r** broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio. Rhain yw'r canllawiau y cytunwyd arnynt fel y safon Ewropeaidd ar amlygiad y cyhoedd i feysydd electromagnetig.

Mae dyletswyddau ar weithredwyr o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch hefyd. Dylent asesu unrhyw risgiau iechyd a diogelwch a all godi, gan gynnwys lefelau allyriadau tebygol y gall pobl ddod i gysylltiad a hwy, a chymryd unrhyw fesurau posibl i rwystro'r cyhoedd rhag cael mynediad i'r datblygiadau. Nid oes gofyniad ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i orfodi rheoliadau drwy'r system gynllunio, sydd eisoes yn berthnasol o dan y gyfundrefn iechyd a diogelwch[5].

## Beth yw'r Cod Arfer Gorau i weithredwyr ffonau symudol?

Er mwyn ein cynorthwyo i ddehongli'r ddeddfwriaeth ac i ychwanegu at y cyngor a gafwyd yn TAN 19, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyd â **Chymdeithas y Gweithredwyr Ffonau Symudol**, **Code of Best Practice on Mobile Phone Network Development** yn 2002. Nod y cod yw gwella deialog ac ymgynghori â chymunedau lleol. Mae'r cod yn cynnwys deg o ymrwymiadau'r diwydiant, a disgrifiad o'r model ymgynghori 'goleuadau traffig'; sy'n graddio safleoedd yn ôl risg uchel (coch), risg canolig (melyn) a risg isel (gwyrdd), yn ôl lefel y diddordeb yn y gymuned. Un o'r deg ymrwymiad yw y dylai yr un faint o wybodaeth gael ei chyflwyno gyda chais am gymeradwyaeth o flaen llaw ag sy'n cael ei chyflwyno gyda chais cynllunio llawn.

Cynhaliwyd gwaith ymchwil yn 2005 i effeithiolrwydd y Cod. Un o argymhellion y gwaith ymchwil oedd y dylid diweddaru'r Cod i adlewyrchu'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth yng Nghymru[6]. Yn 2006, argymhellodd Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, hefyd, y dylid diweddaru'r Cod[7]. Derbyniodd Gweinidogion Cymru yr awgrym hwn ar y pryd, ond nid yw'r Cod wedi'i ddiweddaru hyd yma[8].

## A oes unrhyw newidiadau'n mynd i gael eu gwneud i'r gweithdrefnau cynllunio hyn?

Ym mis Mehefin 2008, comisiynodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil i'r opsiynau ar gyfer newid hawliau datblygiadau a ganiateir mewn perthynas â mastiau ffonau symudol. Y canlyniad oedd dau opsiwn posibl ar gyfer newid; ond byddai'r ddau opsiwn yn gofyn am ddiwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn newid yr hyn sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yn ddatblygiadau a ganiateir[9]. Byddai'r opsiwn roedd yr ymgynghorwyr yn ei ffafrio hefyd yn cael gwared â'r weithdrefn o gymeradwyo o flaen llaw.

---

[4] Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio
[5] Gweler TAN 19 am ragor o fanylion
[6] Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, ***Review of the Code of Best Practice on Mobile Phone Network Development: Final Report***, Mawrth 2006
[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Adroddiad am yr ystyriaeth a roddwyd gan y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i dystiolaeth a dderbyniwyd ynglŷn â'r agweddau cynllunio ynglŷn â chyfarpar telathrebu electronig***, 2006
[8] Llywodraeth Cynulliad Cymru, ***Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet***, 22 Tachwedd 2006
[9] Llywodraeth Cynulliad Cymru, ***Prosiect Ymchwil i Adolygu Hawliau Datblygu Caniataol Cwmnïau Ffonau Symudol***, Chwefror 2009

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu gwaith ymchwil i gynnal adolygiad ehangach o'r broses o wneud cais cynllunio yng Nghymru, yn enwedig yn dilyn y dirywiad economaidd yn 2008 a 2009. Cyhoeddwyd yr astudiaeth ym mis Mehefin 2010[10]. Er bod y broses o wneud cais cynllunio yng Nghymru, ar y cyfan yn gadarn, prif neges y gwaith ymchwil oedd bod angen ei gwella'n sylweddol os yw am fod yn effeithiol wrth gynnal twf economaidd cynaliadwy. Gwnaeth yr astudiaeth 16 o argymhellion o dan dri phrif thema:

- datblygu gwell dealltwriaeth rhwng y rhanddeiliad o beth yw eu gwahanol sefyllfaoedd unigol ac effaith unrhyw benderfynidau a gofynion;
- newid y diwylliant neu fan cychwyn gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio; a
- gwella'r gwaith o weithredu'r broses ar adegau allweddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr holl argymhellion hyn, 14 yn llawn a dau yn rhannol. Nid oes yr un o'r argymhellion yn cyfeirio'n benodol at y broses o gynllunio telathrebu.[11]

## Rhagor o wybodaeth

**Llywodraeth Cymru**
Mae **adran gynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth sy'n cynnwys:
**TAN 19**.

**Cymorth Cynllunio Cymru**
Mae **Cymorth Cynllunio Cymru** yn sefydliad elusennol sy'n helpu unigolion a chymunedau **cymwys** i gyfrannu'n fwy effeithiol at y system gynllunio. Mae'n darparu gwasanaethau cynghori gan gynnwys llinell gymorth.

**Y Porth Cynllunio**
Y **Porth Cynllunio** yw adnodd rheoliadau adeiladu a chynllunio Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yn Nghymru, er bod peth o gynnwys y wefan yn berthnasol i Loegr yn unig.

Hysbysiadau hwylus eraill gan y Gwasanaeth Ymchwil sy'n ymwneud â chynllunio:

- **Polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru**;
- **Polisi cynllunio lleol yng Nghymru**;
- **Datblygiadau nad oes angen caniatâd cynllunio arnynt**;
- **Caniatâd cynllunio**;
- **Galw ceisiadau cynllunio i mewn**;
- **Apeliadau**;
- **Gorfodi**

[10] GVA Grimley, ***Study to Examine the Planning Application Process in Wales, Consultation Draft***, Mawrth 2010
[11] Llywodraeth Cynulliad Cymru, ***Datganiad gan y Cabinet***, Rhagfyr 2009

I gael rhagor o wybodaeth cynllunio, cysylltwch â **Graham Winter** yn y Gwasanaeth Ymchwil (**Graham.Winter@cymru.gov.uk**).

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 11/0269**
**Graham Winter**